

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a
Datganiadau Ariannol ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2017
ar gyfer
Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau Cadwgan
Cadwgan Building Preservation Trust

Ashmole and Co.
Chartered Certified Accountants and Statutory
Auditors
Manchester House
Grosvenor Hill
Cardigan
Ceredigion
SA43 1HY

Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau Cadwgan

Cynnwys y Datganiadau Ariannol ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2017

	Tudalen
Adroddiad yr Ymddiriedolwyr	1 i 7
Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol	8 i 9
Datganiad Gweithgareddau Ariannol	10
Mantolen	11 i 13
Datganiad Llif Arian	
Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol	16 i 23
Datganiad Manwl Gweithgareddau Ariannol	24 i 25

Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau Cadwgan

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2017

Mae'r ymddiriedolwyr sydd hefyd yn gyfarwyddwyr yr elusen at bwrpas Deddf Cwmnïau 2006, yn cyflwyno eu hadroddiad gyda datganiadau ariannol yr elusen ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2017. Mae'r ymddiriedolwyr wedi mabwysiadu darpariaethau'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir 'Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau' sydd yn gymwys ar gyfer elusennau sy'n paratoui eu cyfrifon yn unol â Safon Adrodd Ariannol yn gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (daeth i rym 1 Ionawr 2015).

AMCANION A GWEITHGAREDD

Nodau ac Amcanion

Amcanion ein helusen fel y nodir hwy yn memorandwm cymdeithasiad y cwmni yw:

Cadw er budd pobl Tref Aberteifi a'r Genedl treftadaeth hanesyddol, pensaernïol ac adeiladol a all fodoli yn Nhref Aberteifi a'r cyffiniau mewn adeiladau (gan gynnwys unrhyw adeiladau fel y'u diffinnir yn adran 336 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990) o harddwch arbennig, neu o ddiddordeb hanesyddol neu adeiladol arbennig.

Gweithgareddau pwysig

Ffocws ein gwaith yw adfer a chadw Castell Aberteifi er budd pobl Tref Aberteifi a'r Genedl. Mae Castell Aberteifi yn Heneb Gofrestredig o bwysigrwydd aruthrol yng nghyswllt treftadaeth a diwylliant Cymru fel safle yr Eisteddfod Gymreig gyntaf ym 1176. Yn ystod 900 mlynedd ei hanes mae'r safle wedi cyflawni nifer o rolau gwahanol ac mae ei esblygiad yn parhau hyd heddiw.

Castell Aberteifi oedd un o'r cestyll carreg cyntaf i'w adeiladu yng Nghymru ac fe gynhaliwyd yr Eisteddfod i ddathlu ei gwblhau. Fe'i adeiladwyd gan Rhys ap Gruffudd, Tywysog y Deheubarth ac un o reolwyr mwyaf pwysig Cymru yn y cyfnod cyn concwest. Arweiniodd lleoliad y castell ger man pontio isaf yr Afon Teifi at dwf Aberteifi fel porthladd o bwys a phorthladd nodedig ar gyfer Cymry yn ymfudo i Ogledd a De America. Yn hynny o beth mae Aberteifi a'r castell o bwys sylweddol i'r gymuned Gymreig ledled y byd.

Difrodwyd y safle yn ddifrifol yn ystod y Rhyfel Cartref ac ar ôl hynny trosglwyddwyd y safle i berchnogion preifat. Adeiladwyd fila Sioraidd yn hen Dŵr y Gogledd y castell a chwaraeodd perchnogion dilynol y safle rolau pwysig yn hanes morwrol a dinesig Aberteifi. Meddiannwyd y tŷ gan y fyddin yn ystod yr Ail Ryfel Byd a dirywiodd ei gyflwr yn gynyddol yn ystod ail hanner yr 20fed ganrif. O 1975 bu'n rhaid atgyfnerthu muriau'r castell gyda bwresi dur i atal cwmp pellach a chondemniwyd y tŷ fel adeilad anaddas i ddynion breswyllo ynddo. Ers 2003, mae'r safle wedi bod yn eiddo i Gyngor Sir Ceredigion (CSC) ac mae'r elusen wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth gyda CSC ar brosiect £12m i adfer y safle, ynghyd â nifer o adeiladau rhestredig a'r gerddi hanesyddol, at ddefnydd y cyhoedd

Ar 14 Ebrill 2015, wedi pymtheng mlynedd o waith caled gwiredwyd y cynllun a thorrwyd rhuban i agor y castell gan ymgyrchwyr selog Castell Aberteifi, y Tad Seamus Cunnane a'r Cynghorydd Gwynfi Jenkins. Cynhaliwyd seremoni agor swyddogol y Castell gyda Phrif Weinidog Cymru, Carwyn Jones, ar 25 Mehefin 2015 gyda chyngerdd cofiadwy i ddilyn yn dathlu cyfraniad ardal Aberteifi i ddoniau cendlaethol a rhyngwladol. Mae'r arddangosfeydd yn dathlu arwyddocâd enfawr Castell Aberteifi fel safle'r eisteddfod gyntaf yn 1176 ac yn olrhain hanes y castell a'r dref hyd at y presennol. Mae'r safle yn heneb strategol gyda hanes esblygol ac iddi rôl fywiog a pharhaus yn y gymuned leol.

Budd cyhoeddus

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi adolygu effaith yr Elusen ar bobl Ceredigion gan ystyried Cyfarwyddid y Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus ac maent o'r farn bod cynnal a chadw'r heneb hanesyddol hon a denu ymwelwyr er budd cyhoeddus.

CYFLAWNIAD A PHERFFORMIAD

Gweithgaredd Elusennol

Mae'r gwaith o adfer Castell Aberteifi wedi ei gwblhau diolch i waith caled pawb fu ynghlwm a'r prosiect a chefnogaeth aruthrol gwirfoddolwyr a chyllidwyr. Er mwyn cyflawni'r amcanion elusennol mae gofyn i'r ymddiriedolaeth sicrhau cynnaladwyedd hir dymor y castell trwy greu cyllid digonol i gynnal adeiledd allanol a mewnol y safle, yswirio'r adeiladau, eu cadw yn gynnes ac yn glyd, croesawi ymwelwyr a darparu gwybodaeth am hanes a threftadaeth diwylliannol y safle, cynnal ac adnewyddu arddangosfeydd, trefnu digwyddiadau, darparu gwesty i grwpiau diwylliannol a threftadol a chynnal a chadw'r gerddi, hyn oll tra'n sicrhau diogelwch y cyhoedd. Mae'r ymddiriedolaeth yn ffodus bod nifer fawr o wirfoddolwyr lleol wedi cynnig cynorthwyo gyda'r tasgau hyn..

Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau Cadwgan

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2017

CYFLAWNIAD A PHERFFORMIAD

Gweithgaredd Elusennol

Mae safon y gwaith adfer wedi ennill nifer o wobrau pensaernïol, cadwraeth ac ymwelwyr. Adroddwyd llynedd bod Castell Aberteifi wedi ennill gwobr cadwraeth Cymdeithas Frenhinol Penseiri Cymru ac yn rownd ranbarthol Cymru gwobrau Sefydliad Brenhinol Syrfewyr Siartredig, enillodd Castell Aberteifi categorïau cadwraeth a thwristiaeth. Enwebwyd y Castell fel Prosiect Cymreig y flwyddyn gan fynd ymlaen i rownd derfynol y gwobrau Prydeinig lle roddwyd clod uchel i'r prosiect fel y prosiect cadwraeth nesaf at orau ar draws Prydain Fawr. Eleni enillodd y Castell categori Sioraidd rhaglen Sianel 4 RICS "Great Building Restoration of the Year" ac yna gwobr Prosiect Adfer Y DU gan ddod i'r brig ymhlith y 28 prosiect a ystyriwyd. Cyfeiriodd y beirniaid at gyfraniad a chryfder cefnogaeth y gymuned leol wrth gwblhau'r prosiect.

Yn fwy diweddar adolygwyd Castell Aberteifi yn adran deithio papur newydd y Daily Telegraph, gan ennill sgor anarferol o uchel - 9 allan o 10. Nododd yr adolygiad nad oedd gwadu'r ymdeimlad o hanes ar y safle ac o'r eiliad i chi gordded ar draws y gerddi neu wrth syllu dros y waliau fe'ch cludir i'r Canoloesoedd pan roedd y Castell yn un o gestyll mwyaf Cymru. Bu'r Castell yn destun dwy raglen deledu S4C yn ystod yr haf sef Codi Pac a Phrofiad Gwaith. Lanswyd ap Castell Aberteifi er mwyn rhoi'r profiad gorau posib i ymwelwyr.

Yn dilyn cryn dipyn o ddi-ddordeb yn y safle yn dilyn yr agoriad yn 2015 gwelwyd cwmp yn rhifau'r ymwelwyr yn ystod yr haf 2016. Er hynny ar sail y sylw a roddwyd i'r safle yn sgil ennill gwobr Restoration of the Year ynghyd a'r gweithgareddau a gynhaliwyd llwyddwyd i ddenu rhif sylweddol o ymwelwyr yn ystod yr haf 2017. Cynhaliwyd 14 digwyddiad ar y cyd gyda Theatr Mwldan, gyda noson yng nghwmni Claire Jones, Rhidian, Trystan Llyr Griffiths a Gwawr Edwards yn un o'r uchafbwyntiau. Dathlwyd cyfnodau gwahanol yn hanes hir y Castell gyda phedwar diwrnod thema – Diwrnod Eisteddfod, Diwrnod Canoloesol, Diwrnod Sioraidd a Diwrnod Ail Ryfel Byd. Am y tro cyntaf ac wrth gydweithio gyda'r swyddog ystumod agorwyd y seler i'r cyhoedd gan alluogi ymwelwyr i ddechrau bywyd yn un o ddarnau hynaf y Castell. Pan nad yw'n bosib i ymwelwyr fynd i'r seler mae camerâu ystumod yn dangos i ymwelwyr yr hyn sy'n digwydd. Yn ystod wythnos brysuraf yr haf cafwyd cyfres o gyngherddau yng nghwmni Ensemble Delynau Ieuenctid yr Unol Daleithiau gyda 150 o ymwelwyr o'r Unol Daleithiau yn aros yn y Castell ac yn yr ardal leol.

Mae'r Castell yn ffodus iawn o dderbyn cefnogaeth arbenigwyr, artistiaid, crefftwyr a beirdd lleol. Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd arddangosfa o luniau yr hanesydd lleol, y diweddar Donald Davies. Mae'r castell hefyd yn ddiolchgar i'r arlunydd lleol Meirion Jones am ei rodd i'r Castell sef portread o'r diweddar Miss Woods. Ddiwedd yr haf dadorchuddiwyd cerflun newydd ar y safle sef "Cleddyf Heddwch" o waith y cerflunydd Ben Dearnley a'r beirdd Ceri Wyn Jones a Gillian Clarke.

Byddai'r rhaglen o weithgareddau wedi bod yn amhosibl heb gefnogaeth brwdfrydig gwirfoddolwyr y castell sy'n allweddol i lwyddiant y safle. Mae ymwelwyr yn aml yn canmol y croeso twymgalon a dderbynnir wrth law'r gwirfoddolwyr ynghyd a'r wybodaeth arbennig am hanes a threftadaeth y safle y maent yn ei rannu. Mae un grwp o wirfoddolwyr yn gweithio yn y gerddi sy'n parhau i ddatblygu o dan eu gofal. Mae pedwar gwirfoddolwr ifanc wedi dechrau gweithio ar ardd berlyisiau newydd. Rhoddir sylw i hanes barhaol y safle yn ystod y teithiau tywys yng nghwmni'r gwirfoddolwyr tra bod gwirfoddolwyr eraill yn rhoi sylw i'r arddangosfeydd ac eraill yn stiwardio yn ystod gweithgareddau.

Rhaid cydnabod hefyd staff y castell sydd yn gweithio oriau hyblyg er mwyn sicrhau bod modd agor y safle saith niwrnod yr wythnos, cynnal gweithgaredd gyda'r nos ac ymateb i rifau ymwelwyr amrywiol. Maent wedi ymateb yn arbennig i'r sialens gan sicrhau bod ymwelwyr yn cael profiad pleserus a diogel. Yn ddiwedd cyhoeddwyd apwyntiad Jac Davies fel Cyfarwyddwr y Castell gyda'r briff i arwain y Castell i lwyddiannau pellach.

Mae'r castell wedi sefydlu cysylltiadau gydag Amgueddfa Ceredigion a'r Llyfrgell Genedlaethol sydd yn galluogi arddangosfeydd diwylliannol a threftadol gwahanol yn eu tro. Trwy sefydlu cyswllt gyda Llwybr Gelf Ceredigion mae'r safle wedi caniatáu i artistiaid lleol arddangos eu gwaith. Rhoddodd Cyngor Tref Aberteifi ganiatâd i'r castell arddangos regalia'r Cyngor sydd yn dyddio yn ôl i gyfnod Siarl y Cyntaf pryd y dinistriwyd y waliau yn ystod y Rhyfel Cartref. Cynhelir dosbarthiadau Cymraeg, barddoniaeth a thelyn ynghyd a chyfarfodydd grwpiau hanes, archeoleg a gwnïo ar y safle gyda bwriad o ddechrau Clwb Camera cyn bo hir. Mae rhaglen o ddigwyddiadau Calan Gaeaf wedi eu trefnu ar gyfer y mis hwn a chynhelir Ffair Nadolig ar benwythnos ddechrau mis Rhagfyr.

Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau Cadwgan

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2017

CYFLAWNIAD A PHERFFORMIAD **Gweithgaredd Elusennol**

Mae adfer Castell Aberteifi wedi ei gwblhau ac mae trawsnewidiad y safle yn deyrnged i weledigaeth y cadeirydd gwreiddiol, Trevor Griffiths OBE, a phob ymddiriedolwr, aelod staff, gwirfoddolwr, cynghorwr proffesiynol, cyllidwr a chodwr arian sydd wedi gweithio mor galed ar y prosiect. Mae'r gymuned leol wedi gwneud cyfraniad arbennig gan godi dros £200,000 o arian cyfatebol a chyfrannu dros 20,000 o oriau gwirfoddol yn ystod y cyfnod yn arwain at yr agoriad. Er ei bod yn anodd i'w asesu yn gywir mae tystiolaeth lafar yn awgrymu bod y castell wedi cael effaith bositif iawn ar yr economi leol.

ADOLYGIAD ARIANNOL

Prif ffynonellau ariannu

Ni fyddai cwblhau adfer Castell Aberteifi wedi bod yn bosib heb yr ymrwymiad cryf a chefnogol a dderbyniodd yr ymddiriedolaeth, yn enwedig oddi wrth Gronfa Dreftadaeth y Loteri, Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Rhaglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol, Cadw, Cronfa Dreftadaeth Pensaernïol a'n partneriaid, Cyngor Sir Ceredigion. Rydym hefyd yn ddiolchgar am y gefnogaeth a dderbyniwyd oddi wrth Gyngor Tref Aberteifi a nifer fawr o gynghorau cymunedol a mudiadau yn Aberteifi a'r cyffiniau. Drwy gydol y broses adfer mae'r ymddiriedolaeth wedi derbyn cyngor hael ac arbenigol oddi wrth Ymddiriedolaeth Adfywio'r Tywysog

Polisi Cronfeydd

Mae gan yr elusen lefel uchel (£9.5m) o gronfeydd cyfyngedig sy'n adlewyrchu'r cyllid a wariwyd wrth adnewyddu asedau treftadol. Caiff yr asedau eu dal ar les 125 mlynedd oddi wrth CCC a pholisi'r Ymddiriedolaeth yw paratoi ar gyfer dibrisiad er mwyn dod a'r gwerth i ddim erbyn diwedd y les. Y tâl ar gyfer 2016/17 oedd £62,000 ond mae'n bwysig cofio nad tâl arian yw hwn.

Yn ystod 2016/17, roedd incwm yn cynnwys gwariant gyda chymorth grant ar asedau sefydlog, yn arbennig felly cwblhau adfer Tŷ Cadwgan. Yn y cyfrifon rheoli mae'r ymddiriedolwyr yn adolygu gwariant trwy gymorth grant o'r math hwn ar wahân i gyllid cylchol misol a chostau rhedeg.

Mae'r ymddiriedolwyr yn bles bod cronfeydd anghyfyngedig wedi cynyddu i £259,000, swm sydd yn hafal a dros 50% o gostau redeg blynyddol Castell Aberteifi. Er hynny daeth mwyafrif y grantiau a roddwyd tuag at gostau rhedeg cychwynnol i ben yn ystod 2016/17 ac er bod incwm gweithredol wedi parhau i gynyddu mae'n ffaith bod costau rhedeg arian yn uwch na refeniw arian a bod y castell yn gwneud colled gweithredol. Mae llety (gwely a brecwast a hunan arlwygo) wedi cyfrannu'n sylweddol yn 2016/17 gan bod yr unedau ar agor am 12 mis llawn ac mae'r gwelliant wedi parhau yn ystod 2017/18. Mae cyfnod paratoi hir yn arwain at briodasau ond disgwylir i refeniw o'r math hwn gynyddu'n sylweddol yn 2017/18.

Gyda chymorth pellach wrth HLF ac arbenigwyr allanol mae'r ymddiriedolwyr wedi ymgymryd ag arolwg llawn o weithgaredd a'r cynllun busnes er mwyn sicrhau effeithiolrwydd cost y safle ac i nodi cyfleoedd i greu incwm ychwanegol. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi apwyntio Jac Owen Davies fel Cyfarwyddwr y Castell yn ddiweddar i roi'r cynllun busnes ar waith ac i sefydlu cynaliadwyedd hir dymor y safle. Caiff y swydd ei hariannu gan grant Treftadaeth Hydwyth HLF ac mae'r Ymddiriedolaeth yn ddiolchgar amdano.

Mae ffocws yr Ymddiriedolaeth ar lif arian gan bod rheolau cyfrifo yn gofyn bod offer, darnau gosod a gosodiadau yn cael eu dibrisio dros gyfnod cymharol fyr. Roedd buddsoddiad yn yr asedau hyn yn £972,000 cost ar 31 Mawrth 2017, gan arwain at dâl dibrisio heb fod yn arian o £249,000 yn ystod y flwyddyn ariannol. Bydd nifer o'r asedau hyn (er enghraifft cypyrddau arddangos a dodrefn) yn ddefnyddiol am gyfnod hir wedi'r cyfnod dibrisio, er bydd gofyn i'r ymddiriedolwyr gynnllunio ar gyfer adnewyddu'r asedau mewn amser i ddod.

Mae'r cyfrifon yn dangos colled cyffredinol o £100,000 am y flwyddyn. Mae credydu'r cyfanswm tal dibrisio heb fod yn arian o £312,000 a didynnu'r £314,000 mewn grantiau arian a dderbyniwyd, yn awgrymu bod y golled mewn arian ar lefel tebyg iawn. Er hynny barn yr ymddiriedolwyr yw bod gwariant wedi ei ariannu gan grant yn cynnwys eitemau o wariant achlysurol felly mai'r golled ariannol gwaelodol dipyn yn is. Mae perfformiad hyd yma yn 2017/18 ar y blaen i'r gyllideb.

Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau Cadwgan

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2017

STRWYTHUR, LLYWODRAETHU A RHEOLI

Dogfen Lywodraethol

Rheolir yr elusen gan ddogfen lywodraethol, gweithred ymddiriedaeth, ac mae'n gwmni cyfyngedig, cyfyngedig drwy warant, fel y'i diffinnir gan Ddeddf Cwmnïau 2006.

Mae'r sefydliad yn gwmni elusennol cyfyngedig drwy warant, a ymgorfforwyd ar 21 Mawrth 2000 ac a gofrestrwyd fel elusen ar 11 Mai 2000. Sefydlwyd y cwmni dan Femorandwm Cymdeithasiad lle nodwyd amcanion a grymoedd y cwmni elusennol a caiff y cwmni ei lywodraethu yn unol â'r Erthyglau Cymdeithasiad. Os bydd y cwmni'n cael ei ddirwyn i ben bydd gofyn i aelodau gyfrannu swm nad yw'n fwy na £1.

Mae cyfarwyddwyr y cwmni hefyd yn ymddiriedolwyr elusen at ddibenion cyfraith elusennau. Yn unol â gofynion y Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasiad, rhaid ail ethol y nifer agosaf i un rhan o dair o gyfanswm yr ymddiriedolwyr etholedig ym mhob Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Fel gyda llawer i elusen arall mae gan yr Ymddiriedolaeth is-gwmni masnachol, Cardigan Castle Enterprises Ltd, sy'n gyfrifol am weithgaredd nad yw yn weithgaredd elusennol ar y safle. Mae'r cyfrifon ariannol yn atodol i'r adroddiad hwn yn cyfuno gweithgaredd yr is-gwmni hwn, ond mae Nodyn 13 i'r cyfrifon yn rhoi crynodeb o berfformiad yr is-gwmni. Yn ystod 2106/17 gwnaeth Cardigan Castle Enterprises Ltd elw o £55,000 ac fe gaiff hwn ei gyflwyno i'r ymddiriedolaeth cyn diwedd y flwyddyn galendr er mwyn cefnogi'r gweithgaredd elusennol. Mae ymddiriedolwyr Cadwgan hefyd yn gyfarwyddwyr Cardigan Castle Enterprises Ltd..

Recrwtio a phenodi ymddiriedolwyr newydd

Caiff Ymddiriedolwyr newydd gyfarwyddid ar eu hymrwymadau cyfreithiol yn unol â chyfreithiau elusen a chwmni, Arweiniad y Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus, cynnwys y Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasiad, prosesau gwneud penderfyniadau a pherfformiad ariannol diweddar yr elusen.

Rheoli risg

Mae'r ymddiriedolwyr yn cadw cofrestr risg sy'n cael ei diweddarau'n rheolaidd. Mae gan Ymddiriedolwyr hefyd ddyletswydd i nodi ac adolygu risgiau sy'n berthnasol i'r elusen ac i sicrhau bod rheolaethau priodol ar waith i leihau o fewn rheswm tebygolrwydd ac effeithiau twyll a chamgymeriadau.

Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau Cadwgan

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2017

STRWYTHUR, LLYWODRAETHU A RHEOLI

Rheoli

Mae aelodaeth yr ymddiriedolaeth yn agored i unrhyw un sy'n cefnogi amcanion a nodau'r ymddiriedolaeth. Croesawir ceisiadau am aelodaeth ar unrhyw adeg a cânt eu hystyried yng nghyfarfodydd misol yr ymddiriedolwyr. Mae aelodaeth yn dod i rym ar ddyddiad cymeradwyaeth yr ymddiriedolwyr a rhaid adnewyddu aelodaeth yn flynyddol ym mis Ionawr. Mae tâl tanysgrifiad ar hyn o bryd yn £15 bob blwyddyn galendr.

Mae pob ymddiriedolwr yn rhoi o'i amser yn wirfoddol ac nid yw'n derbyn unrhyw fuddion ariannol neu fuddion eraill oddi wrth yr elusen.

Yn unol â'r Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasiad, cyfyngir nifer yr ymddiriedolwyr i ddeuddeg. Gyda adfer Castell Aberteifi wedi ei gwblhau bu i bum ymddiriedolwr a fu'n gwasanaethau am gyfnod hir ymdeol. Cofnodwyd ymdeoliad Richard Thomas, Hedydd Jones, Jann Tucker a Sandra Davies yn adroddiad y llynedd tra cyflwynodd Keith Evans, ymddiriedolwr a fu'n gwasanaethu am ddau dymor ac a fu'n allweddol wrth sefydlu'r bartneriaeth rhwng yr ymddiriedolaeth a Chyngor Sir Ceredigion, ei ymddiswyddiad ar y 6ed o Chwefror 2017 oherwydd pwysau ymrwymadau eraill. Non Davies yw Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth a Chris Hewitt yw'r Trysorydd. Mae'r Cynghorydd Gareth Lloyd yn gwasanaethu fel enwebai Cyngor Sir Ceredigion a'r Cynghorydd Clive Davies yn gwasanaethu fel enwebai Cyngor Tref Aberteifi. Nid oes unrhyw ymddiriedolwr wedi ei enwebu i gynrychioli y gwirfoddolwyr. Non Davies yw'r ymddiriedolwr sy'n ymdeol yn ei thro a bydd yn cynnig ei hun i'w hail-ethol yng Nghyfarfod Blynyddol 2017. Cyfetholwyd Bryce Barrett fel ymddiriedolwr ar y 26ain o Orffennaf 2017 ac yn unol a dogfen lywodraethol yr ymddiriedolaeth bydd yn cynnig ei hun hefyd i'w ail-ethol yng Nghyfarfod Blynyddol 2017.

Yng Nghyfarfod Blynyddol 2016 apwyntiwyd yr ymddiriedolwyr gwreiddiol Jann Tucker a Richard Thomas fel Noddwyr yr ymddiriedolaeth i gydnabod miloedd o oriau o wasanaeth gwirfoddol i'r prosiect adfer.

Y Swyddog Adnoddau, Sue Lewis, oedd yr uwch aelod o staff yn ystod y flwyddyn ariannol a fu'n arwain tîm bychan o staff parhaol a fu'n gweithio'n hyblyg er mwyn sicrhau oriau agor y safle. Caiff cyflogau staff eu hadolygu a'u penderfynu gan yr ymddiriedolwyr sydd yn gosod cyllidebau manwl ar gyfer incwm a gwariant ag sydd yn monitro perfformiad yn erbyn cyllideb yng nghyfarfodydd misol yr ymddiriedolaeth. Fel a nodwyd uchod mae'r ymddiriedolaeth wedi apwyntio Jac Davies fel Cyfarwyddwr y Castell yn ddiweddar. Cyflogir staff dros dro yn ystod misoedd yr haf er mwyn mynd i'r afael a'r lefelau uwch o weithgaredd a nifer yr ymwelwyr ac mae tîm brwdfrydig o wirfoddolwyr yn ychwanegu at brofiadau'r ymwelwyr.

Dymuna'r Ymddiriedolaeth gydnabod y gefnogaeth eithriadol a dderbyniwyd gan Gyngor Sir Ceredigion (CSC) a'i swyddogion trwy gydol y broses o gyflwyno ceisiadau i Gronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL), Cronfa Ddatblygu Rhanbarthol Ewrop, rhaglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol, Cadw a ffynonellau ariannu eraill, penodi timau dylunio, contractwyr a staff dan reolau caffael Ewropeaidd a rheoli'r gwaith adfer a gwaith archeolegol a wnaed eisoes.

Bu cefnogaeth gref a chyngor hael ac arbenigol Ymddiriedolaeth Adfywio'r Tywysog yn amhrisiadwy. Mae'r ymddiriedolaeth hefyd yn hynod o ddiolchgar i Bwyllgor Gefeillio Brioude am eu cydweithrediad wrth gytuno newidiadau i ardd Brioude ger mynedfa Castell Aberteifi. Mae gwelliannau pellach ar y gweill i'r ardal hon.

Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau Cadwgan

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr
ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2017

CYFEIRNOD A MANYLION GWEINYDDOL

Rhif Cwmni Cofrestredig
03955918 (Lloegr a Chymru)

Rhif Elusen gofrestrredig
1080667

Swyddfa gofrestrredig

Cardigan Castle
Green Street
CARDIGAN
Ceredigion
SA43 1JA

Ymddiriedolwyr

WHR Thomas	- ymddiswyddodd 22.6.16
Mrs EJ Tucker	- ymddiswyddodd 28.9.16
Dr HP Jones	- ymddiswyddodd 27.7.16
Mrs S Davies	- ymddiswyddodd 8.12.16
G Lloyd	
Mrs EN Davies	
EJK Evans	- ymddiswyddodd 6.2.17
JC Davies	
AM Reed	
CS Hewitt	- apwyntiwyd 22.6.16
K Taylor	- apwyntiwyd 24.8.16

Ysgrifennydd y Cwmni

J Timms

Archwilwyr

Ashmole and Co.
Cyfrifwyr Siartredig Ardystiedig ac Archwilwyr Statudol
Manchester House
Grosvenor Hill
Aberteifi
Ceredigion
SA43 1HY

Cyfreithwyr

Messrs Morgan & Richardson
7 St. Mary Street
Aberteifi
Ceredigion
SA43 1HB

Bancwyr

Banc Barclays Bank plc
32 High Street
Aberteifi
Ceredigion
SA43 1HH

Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau Cadwgan

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2017

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU YMDDIRIEDOLWYR

Mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau Cadwgan at ddibenion y gyfraith cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifyddu Cymeradwy'r Deyrnas Unedig).

Yn unol a chyfraith Cwmni mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa bresennol y cwmni elusennol ac o'r adnoddau a dderbyniwyd a'r defnydd a wnaed o adnoddau, gan gynnwys incwm a gwariant, ar gyfer y cwmni elusennol am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hynny, mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr

- ddewis polisiau cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson;
- dilyn y dulliau a'r egwyddorion yn y SORP Elusennau;
- llunio barn ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn synhwyrol;
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y cwmni elusennol yn parhau i weithredu.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu cywir sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol y cwmni elusennol ac er mwyn eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r cwmni elusennol ac felly yn gyfrifol am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac anghysondebau eraill.

Mor bell ag y gwyr yr ymddiriedolwyr:

- nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y cwmni elusennol yn ymwybodol ohoni; ac
- mae'r ymddiriedolwyr wedi cymryd pob cam y dylent fod wedi ei gymryd i wneud eu hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

ARCHWILWYR

Caiff yr archwilwyr, Ashmole and Co., eu cynnig ar gyfer eu hail-benodi yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol nesaf

Cymeradwywyd trwy orchymyn bwrdd yr ymddiriedolwyr ar..... a llofnodwyd ar ei ran gan:

.....

J Timms - Ysgrifennydd

Adroddiad yr Archwilwyr Annibynol i Ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau Cadwgan

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau Cadwgan ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2017 ar dudalennau deg i chwech ar hugain. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Safon Adrodd Ariannol (Arferion Cyfrifyddu Cymeradwy y Deyrnas Unedig)

Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer ymddiriedolwyr y cwmni elusennol, fel corff, ac ar eu cyfer hwy yn unig, yn unol ag Adran 144 Deddf Elusennau 2011 a'r rheoliadau a wnaed o dan Adran 154 y Ddeddf honno. Gwnaed ein gwaith archwilio er mwyn gallu hysbysu ymddiriedolwyr y cwmni elusennol am y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan iddynt mewn adroddiad archwilwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau eithaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb dros unrhyw un ag eithrio'r cwmni elusennol ac ymddiriedolwyr y cwmni elusennol fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.

Cyfrifoldebau priodol ymddiriedolwyr ac archwilwyr

Fel yr eglurwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a nodir ar dudalen chwech, mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni elusennol at ddibenion y gyfraith cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am gael eu bodloni eu bod yn rhoi darlun cywir a theg.

Mae'r ymddiriedolwyr wedi dewis i'r datganiadau ariannol gael eu harchwilio yn unol â Deddf Elusennau 2011 yn hytrach na Deddf Cwmnïau 2006. Yn unol â hynny, penodwyd ni fel archwilwyr dan Adran 144 Deddf Elusennau 2011 ac yr ydym yn adrodd yn unol â rheoliadau a wnaed dan Adran 154 y Ddeddf honno.

Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio a mynegi barn ar y datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn gofyn i ni gydymffurfio â Safonau Moesegol Archwilwyr y Bwrdd Arferion Archwilio gan gynnwys Safonau Moesegol APB – Darpariaethau ar gael ar gyfer Endidau Bychain (Adolygydd), dan yr amgylchiadau a nodir yn nodyn 22 i'r datganiadau ariannol.

Cwmpas archwiliad y datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn golygu cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys camddatganiadau perthnasol, boed trwy dwyll neu gangymeriad. Mae hyn yn cynnwys asesu: a yw'r polisiau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r cwmni elusennol ac a ydynt wedi'u defnyddio'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan yr ymddiriedolwyr; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Yn ogystal, rydym yn darllen holl wybodaeth ariannol ac anariannol Adroddiad yr Ymddiriedolwyr er mwyn nodi anghysondebau perthnasol yn y datganiadau ariannol a archwiliwyd ac i nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos yn sylweddol anghywir yn seiliedig ar y wybodaeth, neu'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth a ganfyddwyd gennym ni yn ystod cyflawni'r archwiliad. Os ddown yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg yr ydym yn ystyried y goblygiadau ar gyfer ein hadroddiad.

Barn ar ddatganiadau ariannol

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr ariannol y cwmni elusennol ar 31 Mawrth 2017 ac o'r adnoddau sy'n dod i mewn a'r defnydd o adnoddau, gan gynnwys ei incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
